# Papur Gwyn: Creu llwybr tuag at dai digonol gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

---

Eich enw: Ifan Rhys

Sefydliad (os yn berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

E-bost / rhif ffôn: ifan.rhys@cyg-wlc.cymru

Eich cyfeiriad: Uned 2, Bloc C, Doc Fictoria, Caernarfon, LL55 1TH

---

## Cwestiynau ymgynghori

**C1:** Pe bai saith ffactor digonolrwydd tai yn cael eu defnyddio yng Nghymru i fonitro digonolrwydd tai, pa ddangosyddion a allai fod yn briodol i werthuso pob un o saith ffactor digonolrwydd tai? (Rhestrir y saith ffactor isod a cheir trafodaeth fanylach am bob ffactor yn gynharach ym Mhennod 2. Defnyddiwch y penawdau hyn a nodwch o dan bob pennawd y dangosydd neu'r dangosyddion y gallai fod yn briodol ei ddefnyddio (eu defnyddio), yn eich barn chi.)

Diogelwch deiliadaeth
Argaeledd gwasanaethau, deunyddiau, cyfleusterau a seilwaith
Fforddiadwyedd
Cyfaneddoldeb
Hygyrchedd
Lleoliad
Digonolrwydd diwylliannol

Un o uchelgeisiau strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru (y Llywodraeth) yw gwarchod cynaliadwyedd cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol naturiol. Rhan bwysig o wneud hynny yw galluogi ac hwyluso siaradwyr Cymraeg i barhau i fyw yn y cymunedau hyn. Wrth gwrs, byddai gwella digonolrwydd tai i bobl leol o fewn cadarnleoedd y Gymraeg yn helpu i gefnogi'r nod hwn.

Yn ei adroddiad, *Grymuso Cymunedau Cryfhau'r Gymraeg*, argymhellodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg (y Comisiwn) bod angen i Lywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn rhoi statws swyddogol i ardaloedd yng Nghymru lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl y Comisiwn byddai hyn yn galluogi datblygu gwell polisïau cyhoeddus mewn meysydd fel tai, gan y byddai modd teilwra polisïau yn unol ag anghenion unigryw ardaloedd penodol. Rydyn ni'n gefnogol o'r argymhelliad, ond rydyn ni hefyd yn gallu gweld y byddai angen datblygu sail dystiolaeth gref er mwyn galluogi hynny i ddigwydd. Gallai'r dangosyddion ar gyfer gwerthuso'r ffactorau digonolrwydd tai gyfrannu at

ddatblygu'r sail dystiolaeth hon.

Isod mae'r ffactorau digonolrwydd tai rydyn ni'n ystyried sy'n berthnasol i gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg, yn ogystal a rhai ystyriaethau am y Gymraeg y dylid rhoi sylw iddynt wrth ddatblygu dangosyddion:

**Diogelwch deiliadaeth** – Mae'r papur gwyn yn cydnabod bod gan rai ardaloedd nifer fawr o ail gartrefi, lletyau gwyliau byrdymor ac eiddo gwag hirdymor, sy'n peri heriau i'r cymunedau oddi mewn iddynt. Ymhellach, noda'r papur gwyn y gall y materion yma hefyd effeithio ar ffyniant y Gymraeg fel iaith gymunedol, ac rydyn ni'n cytuno gyda hynny. Os ydy gosod tŷ ar gyfer gosodiadau tymor byr yn fwy buddiol i landlordiaid preifat, yna mae'n debygol bydd sefyllfaoedd yn codi lle mae rhentwyr preifat yn cael eu troi allan o dai er mwyn newid statws y tai i osodiadau tymor byr. Wrth gwrs, mae'r newidiadau i Gyfarwyddyd Erthygl 4 yn golygu bod gan awdurdodau cynllunio bellach bwerau i reoli'r graddau mae hynny'n digwydd. Rydyn ni'n meddwl y dylai dangosyddion ynghlwm â gwerthuso diogelwch deiliadaeth ddangos faint o ail gartrefi, lletyau gwyliau byrdymor ac eiddo gwag hirdymor sydd mewn ardal LSOA. Ymhellach, dylai dangosyddion hefyd ddangos nifer y ceisiadau sydd wedi bod i newid statws tai o fewn ardal LSOA, yn ogystal a faint o'r ceisiadau sydd wedi bod yn llwyddiannus. Dylai'r dangosyddion alluogi dadansoddi dwysedd ail-gartrefi, lletyau gwyliau byrdymor ac eiddo gwag hir dymor mewn ardaloedd penodol, a drwy hynny ddarparu darlun o lle gallai hyn fod yn broblematig i'r gymuned leol.

**Argaeledd gwasanaethau, deunyddiau, cyfleusterau a seilwaith** – Mae'r papur gwyn yn awgrymu y bydd dangosyddion yn cael eu datblygu i ddangos pellter tai wrth ysgolion fel rhan o ffurfio darlun digonolrwydd tai. Dylai categori iaith ysgolion fod yn rhan o'r data yma, a dylai argaeledd addysg Gymraeg fod yn rhan o ystyried digonolrwydd tai. Yn ei strategaeth *Cymraeg 2050,* gosododd y Llywodraeth darged ar gyfer cynyddu cyfran y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg i 40% erbyn 2050. Bydd hwyluso mynediad plant i addysg Gymraeg yn hanfodol i gyrraedd y targed yma. Rydyn ni'n credu bod y berthynas rhwng lleoliad tai fforddiadwy, sydd o safon, gyda ysgolion cyfrwng Cymraeg yn bwysig yn y cyd-destun hwnnw. Gallai'r data fod yn ddefnyddiol wrth ystyried cyrhaeddiad y Llywodraeth gyda'i thargedau addysg Gymraeg, ac yn ei dro dylai hynny fwydo mewn i benderfyniadau ar ddatblygiadau tai ac ysgolion yn y dyfodol.

**Lleoliad** – Mae'r meini prawf ar gyfer lleoliad yn nodi nad yw tai yn ddigonol os ydynt wedi'u hynysu oddi wrth gyfleoedd gwaith, gwasanaethau gofal iechyd, ysgolion, canolfannau gofal pant a chyfleusterau cymdeithasol eraill. Dangosodd canlyniadau'r Cyfrifiad 2021 bod poblogaeth ardaloedd lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf yn heneiddio ar raddfa uwch na ardaloedd eraill, gyda nifer uchel o'r boblogaeth oedran gwaith yn symud o'r ardaloedd. Rydyn ni'n tybio bod y ffactorau a restrwyd uchod i gyd yn cael effaith ar hyfywedd y cymunedau yma, gan effeithio ar fudoledd i fewn ac allan ohonynt. Mae'n rhesymol casglu bod diffyg cyfleoedd gwaith a diffygion yr economi yn yr ardaloedd yma yn cyfrannu at bobl ifanc yn dewis gadael er mwyn ceisio gwella eu cyfleoedd mewn bywyd.

Buddsoddiad sydd ei angen ar y cymunedau yma er mwyn eu gwneud yn lefydd deniadol i fyw i'r boblogaeth oedran gweithio. Rydyn ni felly'n croesawu ymdrechion i ddatblygu dangosyddion y byddai'n rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'r meini prawf a restrir uchod. Gallai gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa ein helpu i ddeall

pa fathau o fuddsoddiad ac ymyraethau sydd eu hangen er mwyn atal y patrymau o ddiboblogi rhag ail adrodd.

**Fforddiadwyedd** – Mae’r asesiad effaith integredig yn cydnabod bod heriau yn gysylltiedig â fforddiadwyedd tai mewn cymunedau lle mae’r Gymraeg yn cael ei defnyddio’n naturiol dydd i ddydd. Os ydym o ddifri am gryfhau hyfywedd y cymunedau yma, bydd yn hanfodol sicrhau bod tai yn fforddiadwy i’r boblogaeth yno. I wneud hynny bydd angen buddsoddi mewn ymyraethau, fel y cynllun peilot yn Nwyfor, a gwneud hynny ar lefel ehangach. Bydd angen dangosyddion sy’n ein galluogi i ddangos i ba raddau mae tai yn fforddiadwy mewn ardaloedd er mwyn adolygu’n barhaus yr effaith mae ymyraethau’n eu cael, ac i allu ymateb os yw lefelau fforddiadwyedd gwaethygu. Bydd angen gallu gweld beth yw maint bwlch rhwng incymau lleol a chymarebau prisiau tai. Er mwyn galluogi ymyraethau sy’n ymateb i anghenion lleol, dylai’r dangosyddion adrodd ar y sefyllfa ar y lefel micro, e.e. mae’r Comisiwn Cymunedau Cymraeg wedi selio eu gwaith ystadegol ar lefel LSOA.

**Digonolrwydd diwylliannol** – Mae’r papur gwyn yn nodi bod y Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg yn mynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan gymunedau Cymraeg lle ceir nifer mawr o ail gartrefi. Mae hwn yn enghraifft o un o’r mesurau sydd ar waith er mwyn gwireddu'r maen prawf yma. Rydyn ni’n gefnogol o’r cynllun a’r ymdrech i ddeall anghenion tai cymunedau ar y lefel leol, yn ogystal a’r rhwystrau sy’n atal diwallu’r anghenion. Mae ein sylwadau o dan y meini prawf uchod yn esbonio’r dangosyddion rydyn ni’n tybio sydd angen eu blaenoriaethu o ran y Gymraeg a chynllunio ieithyddol.

**C2:** Os caiff dangosyddion eu datblygu er mwyn mesur digonolrwydd tai yng Nghymru, a ddylent fod yn gymwys yn yr un ffordd ledled Cymru neu a ddylent gynnwys rhywfaint o amrywiad rhanbarthol neu leol?

- Dylent – dylent gael eu gweithredu mewn modd cyson ar draws Cymru
- **Na ddylent – dylai’r drefn amrywio yn ôl rhanbarth neu ardal leol**
- Dim Barn
- Ddim yn gwybod

Os felly, sut y gallai hyn weithio yn ymarferol?

Yn ei adroddiad, *Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg*, argymhellodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg (y Comisiwn) i'r Llywodraeth ddeddfu er mwyn rhoi statws swyddogol i ardaloedd yng Nghymru lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl y Comisiwn byddai hyn yn galluogi datblygu polisïau cyhoeddus, mewn meysydd fel tai, sydd wedi eu teilwra i anghenion unigryw yr ardaloedd yma. Rydyn ni'n gefnogol o'r argymhelliad yma, ond hefyd yn cydnabod bod angen gwell sail tystiolaeth er mwyn gosod polisi cyhoeddus sy'n cefnogi'r Gymraeg o fewn y cymunedau hyn. Er ei bod yn debygol y bydd nifer o ddangosyddion fyddai'n berthnasol ledled Cymru, credwn y dylid galluogi rhywfaint o amrywiad rhanbarthol neu leol. Gallwn weld sefyllfa lle byddai angen dangosyddion penodol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

Enghraifft o hyn byddai datblygu dangosyddion ynghylch fforddiadwyedd tai o fewn ardal Peilot Dwyfor. Mae'n bosib y byddai'r Llywodraeth yn penderfynu ehangu'r peilot i weddill yr ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, ond ddim o reidrwydd ar draws Cymru gyfan. Dylid bod modd felly datblygu dangosyddion sy'n unigryw i'r ardaloedd yma er mwyn gallu mynd i'r afael â phroblemau sy'n effeithio ar gynaliadwyedd y Gymraeg yno.

**C3:** A ddylai pobl sy'n byw mewn ardal awdurdod lleol benodol allu cael tai digonol mewn unrhyw ardal o'u dewis yn yr awdurdod lleol hwnnw?

- Dylent
- Na ddylent
- Dim Barn
- Ddim yn gwybod

Beth yw eich barn ar y mater hwn?

Mae gwarchod cynaliadwyedd cymunedau lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn bwysig ar gyfer amddiffyn hyfywedd y Gymraeg, ac mae'n rhan hanfodol o strategaeth *Cymraeg 2050* y Llywodraeth. Rhan bwysig o sicrhau hyfywedd cymunedau Cymraeg yw sicrhau fod gan bobl sydd wedi'u magu ac wedi byw yn yr ardaloedd hyn yn gallu aros yn eu cymunedau os ydynt yn dymuno. Ni ddylai perthyn i ardal lle mae prinder tai fforddiadwy olygu bod angen i unigolyn symud i ardal arall o fewn yr awdurdod lleol i fyw. Nid yw'r broblem hon yn unigryw i ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, wrth gwrs, ond mae ein ffocws ni ar yr ardaloedd yma oherwydd eu pwysigrwydd i hyfywedd y Gymraeg.

Mae'n anodd diffinio beth yn union â olygir gan 'gymuned' yn y cyd-destun hwn a gall olygu pethau gwahanol mewn cyd-destunau gwahanol (er enghraifft, ardal ddinesig o gymharu ag ardal wledig). Ond ar lefel gyffredinol byddem yn argymell peidio mabwysiadu dehongliad rhy eang (er enghraifft, lefel awdurdod leol) neu

rhy gyfyngedig (ardal benodol a bach iawn). I ateb y cwestiwn felly, nid ydym o reidrwydd yn meddwl bod gan rhywun sy'n byw mewn ardal benodol mewn awdurdod lleol allu cael tai digonol mewn unrhyw ardal o'u dewis yn yr awdurdod lleol hwnnw. Er hyn, rydym yn credu y dylai pobl allu parhau i fyw mewn ardaloedd mwy penodol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae angen dehongliad rhesymol o ystyr cymuned yn y cyd-destun hwn, gan ddefnyddio'r cysyniad hwn fel un rhan o'r hyn sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn gwerthuso a oes tai digonol mewn ardaloedd penodol.

Dyw'r pwyntiau uchod ddim yn golygu na ddylai fod symudoledd o fewn ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Yn ei adroddiad, *Grymuso Cymunedau Cryfhau'r Gymraeg*, mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn nodi pwysigrwydd symudoledd siaradwyr Cymraeg oddi mewn i'r ardaloedd hyn. Dywed y Comisiwn "yng nghyd-destun y farchnad lafur leol, lle ceir nifer o swyddi lle bo angen y Gymraeg a bu trafferth i'w llenwi, mae angen sicrhau nad yw polisïau i flaenoriaethu pobl leol yn cael yr effaith anfwriadol o rwystro siaradwyr Cymraeg rhag symud i'r cymunedau hyn. Gall annog siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn lleol i ymsefydlu am y tro cyntaf mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch fod yn llesol i'r iaith." Wrth gwrs, mae'n bosib i unrhyw un sy'n penderfynu symud i'r fro Gymraeg ddysgu'r iaith, ac mae angen hyrwyddo hynny. Ond mae hefyd angen ystyried a oes angen datblygu polisïau er mwyn annog a chefnogi siaradwyr Cymraeg i symud i ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol lle nad oes ganddynt gysylltiad lleol, ond y byddai eu presenoldeb yn werthfawr i hyfywedd y Gymraeg yno. Dylai hyn fod yn ystyriaeth wrth ddatblygu strategaeth dai yn y dyfodol.

**C4:** A ddylai elfennau o'r fframwaith tai digonol fod yn gymwys i'r sector perchen-feddianwyr?

- **Dylent**
- Na ddylent
- Dim Barn
- Ddim yn gwybod

Os felly, sut y gellid gwneud i hyn weithio yn ymarferol a pha faterion sydd angen eu hystyried ymhellach?

Rydym yn gefnogol o unrhyw ymdrechion i gynyddu ein dealltwriaeth o sefyllfa tai yng Nghymru, gan y byddai hynny, yn ei dro, yn gallu gwella proses cynllunio ieithyddol.

**C5:** Yn eich barn chi, a fyddai'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio strategaeth dai yn helpu i ysgogi cynnydd tuag at sicrhau bod tai digonol ar gael i bawb yng Nghymru?

- **Byddai**
- Na fyddai

- Dim effaith
- Ddim yn gwybod
- Dim ateb

Rhowch eich rhesymau.

| |
|---|
| Rydyn ni'n gefnogol o'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio strategaeth dai. Mae'r cynnig hwn yn welliant amlwg ar y trefniadau presennol ac rydym yn cytuno y bydd cyflwyno strategaeth o'r fath yn debygol o arwain at ysgogi cynnydd tuag at sicrhau bod tai digonol ar gael i bawb yng Nghymru, a rhaglen waith fydd wedi'i gynllunio a'i gyflenwi'n fwy strategol.<br><br>O safbwynt y Gymraeg yn benodol, bydd y strategaeth yn cynnig cyfle amlwg i ddadansoddi hyd a lled cyflenwad tai o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Yn ogystal, byddai llunio'r strategaeth yn gyfle i gynllunio yn unol â thargedau a gweledigaeth y Llywodraeth dros y Gymraeg, a byddem yn disgwyl gweld gofynion penodol yn y cyd-destun hwn yn y ddeddf i sicrhau bydd y strategaeth yn ystyried y Gymraeg. |

**C6:** A ddylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddefnyddio saith ffactor digonolrwydd tai wrth ddrafftio'r strategaeth?

- **Dylai**
- Na ddylai
- Ddim yn gwybod
- Dim ateb

Rhowch eich rhesymau

| |
|---|
| Rydyn ni'n gefnogol o'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddefnyddio saith ffactor digonolrwydd tai wrth ddrafftio'r strategaeth. Rydyn ni'n ystyried bod mwyafrif o'r ffactorau yn berthnasol mewn ffyrdd gwahanol i gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg (mae ein hymateb i gwestiwn 1 yn manylu sut). Byddai gorfod ystyried y saith ffactor fel rhan o strategaeth dai yn gyfle amlwg i gynllunio yn unol â thargedau a gweledigaeth y Llywodraeth dros y Gymraeg. |

**C7:** Pa mor aml y dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth?

- Bob blwyddyn
- Bob 2-3 blynedd
- **Bob 4-5 mlynedd**
- Ni ddylai fod unrhyw ofyniad o'r fath
- Ddim yn gwybod

- Dim barn

Rhowch eich rhesymau.

| |
|---|
| Dylai adolygu'r strategaeth gyd-fynd gyda asesiadau o'r farchnad dai leol, sy'n digwydd bob pum mlynedd. Mae'r asesiadau o'r farchnad dai leol yn rhan allweddol o dystiolaeth wrth baratoi Strategaethau Tai Lleol, Cynlluniau Datblygu Lleol, a'r Prosbectws Grant Tai Cymdeithasol. Rydyn ni'n meddwl y byddent hefyd yn dystiolaeth pwysig ar gyfer adolygiadau'r strategaeth dai, yn ogystal. Byddai felly yn gwneud synnwyr i'r adolygiadau ddigwydd ar ôl cyhoeddi'r asesiadau o'r farchnad dai leol.<br><br>Mae argymhelliad 26 yn adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, *Grymuso Cymunedau, Cryfhau'r Gymraeg*, yn dweud y dylai awdurdodau lleol sicrhau fod pob cynllun sydd yn y Prosbectws Tai Cymdeithasol yn cynnwys tystiolaeth o anghenion tai lleol. Yn ôl y Comisiwn, dylid cynnal asesiad cymunedol o'r anghenion am dai, a hynny bob pum mlynedd fesul ardal cyngor cymuned neu gyngor tref, ac y dylai'r broses gael ei harwain gan yr Hwyluswyr Tai Gwledig. Rydyn ni'n gefnogol o'r argymhelliad yma, a dylai'r weithgaredd hon hefyd fwydo mewn i'r strategaeth dai genedlaethol, a'r adolygiadau ohoni.<br><br>Yn ychwanegol, gallai strategaethau 5 mlynedd hybu'r Gymraeg mae'n ofynnol i gynghorau sir a pharciau cenedlaethol baratoi fod yn berthnasol i'w hystyried ochr yn ochr ac adolygu'r strategaeth. Mae'r strategaethau hybu yn esbonio sut mae'r sefydliadau yma yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardal. |

**C8:** Pa mor aml y dylai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd i'r Senedd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r strategaeth?

- Bob blwyddyn
- **Bob 2-3 blynedd**
- Bob 4-5 mlynedd
- Ni ddylai fod unrhyw ofyniad o'r fath
- Ddim yn gwybod
- Dim barn

Rhowch eich rhesymau.

| |
|---|
| Byddai adrodd i'r Senedd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r strategaeth pob 2-3 blynedd yn cyd fynd gyda amserlen adolygu'r asesiadau o'r farchnad dai leol. Gweler ein ateb i gwestiwn 7 am rhagor o gyd-destun. |

**C9:** Ydych chi'n cytuno y dylai data rhenti gael eu casglu'n lleol gan Rhentu Doeth Cymru (e.e. ward neu god post)?

- Ydw

Pam?

| |
|---|
| Rydyn ni’n ffafrio system sy’n galluogi penderfyniadau am anghenion tai lleol gael eu gwneud ar y lefel leol, sy’n ymateb i anghenion lleol, yn hytrach nag arddel polisïau rhanbarthol neu genedlaethol yn unig. Byddai casglu data ar y lefel leol yn hwyluso hynny. |

**C10:** Heblaw'r rhai a nodwyd eisoes, a oes unrhyw egwyddorion neu amcanion eraill y dylid eu hystyried wrth ddatblygu sut y dylid darparu gwybodaeth am renti i Rhentu Doeth Cymru?

| |
|---|
| |

**C11:** Ydych chi'n credu bod llunio mapiau gofodol o ddata rhenti cyfunol yn ddefnyddiol ac y dylid cyhoeddi'r mapiau hyn?

- **Ydw**
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Pam?

| |
|---|
| Rydyn ni’n meddwl y byddai llunio mapiau gofodol yn galluogi gwell mynediad at ddata rhenti cyfunol, a gallai hynny hwyluso cynllunwyr ieithyddol yn y Llywodraeth a’i phartneriaid i weithredu ar draws ei holl feysydd polisi i gefnogi cyflawniad ei strategaeth, *Cymraeg 2050*. |

**C12:** Ydych chi'n credu y dylai fod mecanwaith i herio cynnydd mewn rhent?

- **Ydw**
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Pam?

| |
|---|
| Mae’r papur gwyn yn cydnabod bod yna ardaloedd o lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg a lle mae datblygiadau mewn twristiaeth wedi cynyddu nifer y lletyau gwyliau byrdymor yn yr hyn a arferai fod yn eiddo preswyl. Rydyn ni’n meddwl bod risg y gallai sefyllfaoedd o’r fath leihau argaeledd tai rhent y sector preifat a chodi premiwm y rhent mewn modd anghyfartal. Er mwyn amddiffyn rhag hynny, dylai bod modd herio cynnydd o’r fath, gyda corff arbenigol ac annibynnol yn beirniadu ar beth sydd yn deg. |

**C13:** Ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i ddeiliaid trwydded gwblhau Cofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol?

- **Ydw**
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod

Pam?

**C14:** Yn eich barn chi, pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y Cofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol? Er enghraifft, a ddylai data rhenti gael eu casglu gan y Cofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol?

Rydym yn gefnogol o unrhyw ymdrechion i gynyddu ein dealltwriaeth o sefyllfa tai yng Nghymru, gan y byddai hynny, yn ei dro, yn gallu gwella cynllunio ieithyddol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Rydym yn gefnogol o gynnwys data rhenti yn y Cofnod Cyflwr Eiddo Blynyddol, oherwydd gallai gynyddu ein dealltwriaeth o fforddiadwyedd tai o fewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch.

**C15:** A oes unrhyw grwpiau eraill o bobl nad ydynt wedi'u nodi yn y meini prawf cymhwystra y dylid eu hystyried? Nodwch unrhyw grwpiau nad ydynt wedi'u nodi yn y meini prawf cymhwystra arfaethedig.

**C16:** Ydych chi'n credu y byddai taliadau a ganiateir yn helpu pobl ag anifeiliaid anwes i gael mynediad at y Sector Rhentu Preifat?

- Ydw
- Nac ydw
- **Ddim yn gwybod**

Pam?

**C17:** Ydych chi'n rhagweld unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a fyddai'n deillio o'r cynnig hwn?

- Ydw
- Nac ydw
- **Ddim yn gwybod**

Pam?

**C18:** Ydych chi'n credu y byddai'r meini prawf arfaethedig ar gyfer ad-dalu elfen cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir o'r dreth a godir yn rhoi cymhelliant i landlordiaid ac yn cynyddu mynediad at gartrefi fforddiadwy yn y Sector Rhentu Preifat?

- Ydw
- Nac ydw
- **Ddim yn gwybod**

Pam?

**C19:** Pa gyfnod o amser rhwng prynu'r annedd a chofrestru'r brif brydles â'r awdurdod lleol y dylid ei ddarparu er mwyn bod yn gymwys i gael ad-daliad?

**C20:** Ydych chi'n rhagweld unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol a fyddai'n deillio o'r cynnig hwn?

**C21:** A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth neu sylwadau pellach yr hoffech ei (eu) darparu?

**C22:** Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol gorchymyn gweithgareddau esempt fel y'i cynigir yn yr ymgynghoriad hwn ar y Gymraeg? Mae gennym

ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- A ydych yn meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- A ydych yn meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

Mae ein hymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad yn crynhoi yr effeithiau rydyn ni yn meddwl byddai cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, ac fe anogwn chi i'w darllen yn llawn. I grynhoi'n fyr, mae sefydlogi cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol o ddydd i ddydd yn rhan bwysig o strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru. Rhan allweddol o'r agwedd yma o *Cymraeg 2050* yw galluogi ac hwyluso siaradwyr Cymraeg i barhau i fyw yn y cymunedau hyn, ac mae hynny yn cynnwys darparu tai digonol i'r boblogaeth leol. Rydym yn gefnogol o'r syniad i ddatblygu strategaeth dai y byddai'n defnyddio'r saith ffactor digonolrwydd tai fel sail, oherwydd mae'r mwyafrif ohonynt yn berthnasol i'r Gymraeg. Byddai'r strategaeth yn cynnig cyfleoedd i ni wella ein dealltwriaeth o sefyllfa tai cymunedau Cymraeg, ac yn ein galluogi i deilwra ymyraethau a mesur eu heffeithiolrwydd. Y tu hwnt i ardaloedd lle mae dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg, rydyn ni'n meddwl bod y cyfleoedd i ddangos y berthynas rhwng tai digonol a mynediad i addysg Gymraeg.

**C23:** Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid gorchymyn gweithgareddau esempt er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Gweler ein hymateb i gwestiwn 22.

**C24:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech wneud sylwadau ar faterion eraill nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt uchod, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt:

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch yma os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw: